



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

TYSTYSGRIFAU IECHYD ALLFORIO



Mewnforio anifeiliaid a
chynhyrchion anifeiliaid i
Brydain

ADNABOD EICH RISG I FOD YN BAROD AR GYFER NEWID





CYNNWYS

- 03** Cyflwyniad i Dystysgrifau Iechyd
- 06** Ardystiad digidol, copïau digidol a thystysgrifau Iechyd ar bapur
- 08** Ble alla i ddod o hyd i'r gofynion sydd eu hangen er mwyn i'm nwyddau/anifeiliaid gael eu hardystio (cael Tystysgrif Iechyd)?
- 10** Symud parseli
- 11** Cymorth





TYSTYSGRIFAU IECHYD



CYFLWYNIAD

Mae'r daflen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth i allforwyr yr Undeb Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) a mewnforyr Prydain am un o'r rheolaethau bioddiogelwch allweddol: y dystysgrif iechyd. Mae'r rheolaethau hyn hefyd yn berthnasol i allforwyr Gweddill y Byd. Mae tystysgrifau iechyd yn ofynnol ar gyfer mewnforio bron pob anifail byw, cynnyrch cenhedlol a chynnyrch anifeiliaid risg canolog i Brydain.



PAM MAE ANGEN TYSTYSGRIFAU IECHYD?

Gall nwyddau wedi eu mewnforio gynnwys risgiau y mae angen eu rheoli i ddiogelu bioddiogelwch y Deyrnas Unedig. Mae'r risg hon yn amrywio ar draws nwyddau. Ar gyfer mewnforien a ganiateir sy'n gofyn am Dystysgrif Iechyd, mae'r dystysgrif yn nodi'r gofynion i liniaru'r risg.

Gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio â rheolaethau bioddiogelwch, y cyfeirir ato hefyd fel rheolaethau Meddyginiaethol a Ffytioiechydol (SPS), arwain at wrthod a dinistrio'r llwyth a fewnforir heb unrhyw iawndal (weithiau gellir dychwelyd y llwyth os yw'r wlad sy'n allforio yn caniatáu hynny). Mae diffyg cydymffurfio yn cynnwys absenoldeb tystysgrif pan fo angen un, neu wallau o fewn tystysgrif.

O 31 Ionawr 2024 ymlaen, ar ôl cyflwyno tystysgrifau iechyd ar gyfer nwyddau risg canolog yr Undeb Ewropeaidd/EFTA, bydd Defra yn cynnal archwiliadau dogfennol ar rai tystysgrifau a bydd adborth yn cael ei ddarparu, ond ni fydd nwyddau'n cael eu dal yn ôl yn rheolaidd ar y ffin. O 30 Ebrill 2024 ymlaen, os bydd gwiriad dogfennol yn nodi nad yw EHC wedi cael ei ddarparu neu ei fod yn cynnwys gwallau, bydd y llwyth yn cael ei ddal yn ôl a gall fod yn destun camau gorfodi ffurfiol.



BETH YW ARDYSTIO?

Mae ardystio yn broses wirio a wneir gan Swyddog Ardystio awdurdodedig i gadarnhau bod risgiau bioddiogelwch wedi cael eu lliniaru (fel sy'n ofynnol gan y wlad sy'n mewnfario). Y dystiolaeth ar gyfer yr ardystiad yw'r Dystysgrif Iechyd.

BETH YW TYSTYSGRIF IECHYD?

Mae Tystysgrif Iechyd, neu Dystysgrif Iechyd Allforio (EHC), yn ddogfen swyddogol [1] sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n nodi'r llwyth ac sy'n cadarnhau bod safonau a rheoliadau iechyd penodol wedi eu bodloni, i liniaru risgiau bioddiogelwch ac i ganiatáu mewnfario anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i Brydain.

Fe'i cwblheir gan Swyddog Ardystio (neu Filfeddyg Swyddogol fel arfer), yna caiff ei gofnodi a'i gyhoeddi yng ngwlad y tarddiad. Mae tystysgrifau swyddogol yn cynnwys nodweddion diogelwch sy'n ei gwneud yn anodd ffugio'r ardystiad neu ffugio'r dystysgrif. Felly, dim ond y ddogfen wreiddiol neu'r ffeil ddiogel wedi ei hardystio'n electronig sy'n ddilys fel dystiolaeth ardystio.



BETH YW LLWYTH?

Mae llwyth yn swm penodedig o nwyddau neu anifeiliaid sy'n cael eu hardystio gyda'i gilydd, h.y. drwy'r un Dystysgrif Iechyd, ac sy'n tarddu o'r un lle, ac sy'n cael eu cludo gyda'i gilydd drwy'r un dull o gludo [2].





YMHLE MAE MODD I MI GAEL TYSTYSGRIF IECHYD?

I gael manylion am sut i gael Tystysgrif Iechyd, dylech gysylltu â'r Awdurdod Cymwys (sefydliad llywodraethol neu ei gynrychiolydd [3]) yn lleol lle mae'r ardystiad i'w gynnal, cyn i'r nwyddau gael eu hanfon i Brydain. Mae gwledydd yn darparu'r wybodaeth hon ar eu gwefannau swyddogol.



BETH SY'N DIGWYDD CYN I MI GAEL TYSTYSGRIF IECHYD?

Mae'n bosibl y bydd angen i Filfeddyg Swyddogol neu Swyddog Ardystio arall, a awdurdodir gan yr Awdurdod Cymwys [4] yn y wlad y daw'r llwyth ohoni, archwilio'r llwyth a/neu archwilio cofnodion neu ddogfennau priodol. Mae angen iddynt gadarnhau bod y llwyth yn bodloni gofynion iechyd anifeiliaid a iechyd y cyhoedd Prydain fel bo'n briodol - er enghraifft, bod y llwyth neu'r rhanbarth yn rhydd o halogiad neu glefyd. Byddant wedyn yn llenwi ac yn llofnodi'r dystysgrif yn electronig ac yn ei rhannu fel PDF dilysadwy. Os yw'n dystysgrif bapur, byddent yn ei hargraffu, yn ei llofnodi â'u llawysgrifen ac yn ei stampio'n swyddogol. Mae rhagor o fanylion am yr amgylchiadau lle mae Prydain yn derbyn tystysgrifau PDF dilysadwy ar gael yn yr adran 'Ardystio Digidol'.



PWY SY'N RHOI/CYFLWYNO'R DYSTYSGRIF?

Yn achos ardystiad wedi ei llofnodi'n electronig, bydd yr Awdurdod Cymwys yn rhoi ffeil PDF i'r allforiwr neu ei gynrychiolydd. Gellir dilysu hyn yn erbyn yr ardystiad digidol gwreiddiol yn y gronfa ddata swyddogol. Os yw'r dystysgrif ar bapur, bydd y Swyddog Ardystio neu ei gynrychiolydd yn trosglwyddo'r gwreiddiol wedi ei gwblhau i'r allforiwr neu ei gynrychiolydd.



BETH I'W WNEUD OS YW'R LLWYTH YN UN RISG GANOLIG AC NAD OES TYSTYSGRIF IECHYD?

Os nad oes tystysgrif iechyd yn bodoli ar gyfer y nwyddau POAO rydych chi eisiau eu hallforio o'r Undeb Ewropeaidd i Brydain, a bod yr allforio'n cael ei ganiatáu, mae'n bosibl y bydd angen un neu fwy o'r canlynol arnoch: dogfennau masnachol neu drwydded neu awdurdodiad mewnforio, a fydd yn nodi pa amodau mewnforio fydd yn berthnasol.

Cysylltwch â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) drwy imports@apha.gov.uk:

- os nad oes trwydded ar gyfer eich anifail na'ch cynnyrch cenhedlol
- os nad ydych chi'n siŵr a oes angen trwydded arnoch
- os ydych chi'n mewnforio POAO risg ganolig neu RoW ABP ond nad oes tystysgrif iechyd ar gyfer eich nwyddau ar hyn o bryd

Os ydych chi'n mewnforio ABP risg ganolig o wledydd yr Undeb Ewropeaidd/EFTA ac nad oes tystysgrif iechyd ar gael ar gyfer eich nwyddau, bydd angen dogfen fasnachol ar eich nwyddau o 31 Ionawr 2024 ymlaen, yn hytrach na thrwydded neu awdurdodiad mewnforio.



ARDYSTIO DIGIDOL, COPIAU DIGIDOL A THYSTYSGRIFAU IECHYD PAPUR



TYSTYSGRIFAU IECHYD DIGIDOL A TRACES [5]

Nid yw copi digidol o dystysgrif bapur yr un fath â thystysgrif electronig sydd wedi ei llofnodi'n ddigidol.

Tystysgrifau Iechyd Digidol a TRACES

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn newid o ardystio ar bapur gyda llofnodion wedi eu hysgrifennu â llaw, i **ardystiad digidol**, gyda llofnodion electronig. Mae'r system swyddogol yn cadw'r cofnod ardystio mewn fformat digidol. Mae'r rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn defnyddio system o'r enw TRACES ar gyfer cyflwyno tystysgrifau iechyd electronig gyda mynediad cyfrif neilltuol diogel gan y Swyddogion Ardystio. Mae rhai aelod-wladwriaethau a gwledydd eraill EFTA yn defnyddio systemau Awdurdod Cymwys eraill i gyflwyno tystysgrifau iechyd electronig. I gael rhagor o fanylion ynghylch pa wledydd sy'n gallu darparu tystysgrifau PDF dilys, ewch i [Countries Great Britain will accept validated PDF GB health certificates from - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/countries-great-britain-will-accept-validated-pdf-gb-health-certificates-from).

Rhaid i Awdurdod Cymwys y wlad sy'n allforio ddarparu ffeil electronig i allforwyr o'r system swyddogol. Rhaid i gopïau o'r fath fod yn y fformat cywir (prawf ymyrraeth, e-lofnod, stamp amser a PDF wedi ei selio'n electronig) a gellir dilysu hyn yn electronig yn erbyn y cofnod ardystio electronig, gan arolygydd ym Mhrydain.

Gellir llwytho i lawr ac e-bostio ffeil .pdf y Dystysgrif Iechyd ddigidol neu ei rhannu'n electronig. Rhaid i'r allforiwr anfon y ffeil pdf electronig ymlaen at y mewnforiwr o Brydain (neu ei gynrychiolydd) i'w alluogi i'w llwytho i fyny i system hysbysiadau mewnforio Prydain a elwir yn IPAFFS, cyn croesi'r ffin.

Os na ellir darparu tystysgrif PDF ddilys gan yr Undeb Ewropeaidd neu wlad EFTA sy'n allforio'r nwyddau, bydd angen i'r dystysgrif bapur wreiddiol fynd gyda'r llwyth. Dylid darparu copi wedi ei sganio neu ddelwedd electronig o'r dystysgrif bapur wreiddiol i'r mewnforiwr ym Mhrydain a'i llwytho i fyny i'r system IPAFFS.





YR UNDEB EWROPEAIDD AC EFTA [6]: A OES ANGEN I MI LWYTHO FYNY FERSIWN PDF WEDI EI LLOFNODI'N ELECTRONIG O'R DYSTYSGRIF I FY HYSBYSIAD MEWNFUDOL AR IPAFFS?

O 31 Ionawr 2024 ymlaen, dylai mewnforywr cynhyrchion anifeiliaid y mae angen eu hardystio, sy'n tarddu o wledydd yr Undeb Ewropeaidd ac EFTA, neu eu hasiant mewnforio, lwytho'r ffeil pdf i fyny, sef tystysgrif iechyd digidol y gellir ei dilysu'n swyddogol, sydd wedi ei chreu gan system TRACES [7] (neu system gwledydd eraill sydd wedi ei chymeradwyo gan yr Undeb Ewropeaidd/EFTA) i system hysbysu mewnforio Prydain, IPAFFS. Os nad oes tystysgrif PDF ddilysadwy ar gael, bydd angen i dystysgrif bapur fynd gyda'r llwyth i Brydain.

Mae'r allforiwr yn gyfrifol am sicrhau bod Tystysgrif Iechyd wedi ei llofnodi'n ddigidol gan system gwlad TRACES/Undeb Ewropeaidd neu EFTA yn cael ei allforio yn y fformat PDF cywir. Ar gyfer Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd sy'n defnyddio TRACES, mae canllawiau ar gael ar wefan TRACES yn TRACES (europa.eu). Mae'r allforiwr yn gyfrifol am anfon copi PDF o'r Dystysgrif Iechyd wedi ei llofnodi'n ddigidol at y mewnforywr neu ei asiant. Os defnyddiwyd tystysgrif bapur, dylid darparu copi wedi ei sganio o'r dystysgrif.

Fel y mewnforywr neu'r asiant mewnforio, chi sy'n gyfrifol am greu'r hysbysiad yn IPAFFS a llwytho'r PDF sydd wedi ei lofnodi'n ddigidol i fyny i'r hysbysiad hwnnw. Os oes tystysgrif bapur wedi ei defnyddio, bydd angen llwytho'r copi wedi ei sganio i fyny.

O 30 Ebrill 2024 ymlaen, ar gyfer mewnforywr cynhyrchion anifeiliaid, pan fydd swyddog ffin neu Ganolfan Rheoli'r Ffin yn gofyn am dystysgrif, byddant yn defnyddio'r copi wedi ei lwytho i fyny i'w ddilysu ar gyfer y cofnod data electronig yn TRACES neu system gwlad gymeradwy arall yr Undeb Ewropeaidd/EFTA. Os nad yw'r copi a lwythwyd i fyny yn gopi o ardystiad electronig wedi ei lofnodi'n ddigidol yn TRACES neu system gwlad gymeradwy arall yr Undeb Ewropeaidd/EFTA, mae'n rhaid darparu'r dystysgrif bapur wreiddiol, er mwyn i swyddogion allu gwirio'r copi a lwythwyd i fyny drwy IPAFFS yn erbyn y dystysgrif wreiddiol. Bydd angen anfon hwn i'r Safle Rheoli ar y Ffin os nad yw'r nwyddau'n destun archwiliad ar y ffin.





BLE GALLAF I DDOD O HYD I'R GOFYNION AR GYFER ARDYSTIO FY NWDYDDAU/ANIFEILIAID?

Mae gofynion Prydain i'w gweld yn y tystysgrifau iechyd enghreifftiol ar gyfer allforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid. Gellir gweld hwn yma, [Gweler tystysgrifau iechyd allforio enghreifftiol ar gyfer allforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid](#). Mae'r gofynion yn benodol i'r math o nwyddau a phwrpas y cynnyrch. (Mae'r tystysgrifau enghreifftiol ar GOV.UK er gwybodaeth yn unig ac maent yn dempled i'w defnyddio gan Awdurdodau Cymwys y wlad sy'n allforio).

Mae'r broses ar gyfer darparu'r wybodaeth angenrheidiol yn lleol a dylai allforwyr gysylltu â'u hawdurdodau lleol i weld sut mae hyn yn cael ei wneud. Fe all allforwyr gael mynediad at systemau swyddogol electronig lleol ar gyfer gofyn am Dystysgrif Iechyd ac i fewnbynnu'r wybodaeth sydd ei hangen yn uniongyrchol neu mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt lenwi a chyflwyno ffurflenni cais.

Mae Rhan I y dystysgrif enghreifftiol yn rhestru'r holl wybodaeth y bydd ei hangen ar eich Swyddog Ardystio i'w helpu i gwblhau'r rhan hon o'r dystysgrif.

Gall union nifer y meysydd yn Rhan I EHC amrywio yn dibynnu ar y cynnyrch dan sylw. Fodd bynnag, mae'r meysydd sydd yn Rhan I yn weddol gyson.

Mae'r canllawiau a ganlyn yn nodi atebion i gwestiynau cyffredin ynghylch cwblhau Rhan I:



Sut mae llenwi 'Man llwytho' (Blwch I.13 fel arfer)?

Ar gyfer anifeiliaid, dylech gynnwys: enw'r ddinas neu'r man lle mae'r anifeiliaid yn cael eu llwytho ac, os ydynt wedi eu cynnull ymlaen llaw, manylion y ganolfan ymgynnull swyddogol.

Ar gyfer cynhyrchion, dylech gynnwys: enw'r ddinas a'r categori (er enghraifft, sefydliad, daliad, porthladd neu faes awyr) o'r man olaf lle mae'r cynhyrchion i'w llwytho yn y cyfrwng cludo ar gyfer y daith i Brydain.

Os yw'n gynhwysydd, rhwch y man lle mae'r nwyddau'n mynd ar y fferi olaf i Brydain, rhwch y man lle cychwynnodd y lori (h.y. y man lle ymunodd y lori â'r fferi). Mae hyn yn golygu bod y 'lle llwytho' yn gallu bod yn wahanol yn dibynnu ar y 'dulliau cludo' sydd wedi eu hardystio.



Sut ydw i'n cwblhau'r 'Dull Trafnidiaeth' (I.15 fel arfer)?

Yma, dylid nodi'r dull olaf o deithio a ddefnyddir i deithio i Brydain. Dim ond un y dylid ei ddewis o blith y rhai a restrir.

Nodwch rif(au) cofrestru wagenni rheilffordd a lorïau, enwau llongau ac, os yw'n hysbys, rhifau hedfan awyrennau.



Wrth ardystio llwythi o gynhyrchion anifeiliaid fel rhan o grŵp neu lwyth cymysg i Brydain, cydnabyddir na fydd modd adnabod y cyfrwng cludo terfynol pan gaiff ei ardystio. Mewn achosion o'r fath, caniateir i'r swyddog ardystio ddefnyddio'r gair "grwpio" fel dull o adnabod y cyfrwng cludo. Fodd bynnag, rhaid i'r manylion cludo terfynol gael eu darparu'n gywir yn yr IPAFFS gan yr hysbysydd mewn datganiad mewnforio cyn i'r llwyth gyrraedd Prydain.

Yn achos cludo mewn cynwysyddion neu flychau, cyfanswm nifer y rhain a'u cofrestrriad a lle mae rhif cyfresol y sêl, rhaid nodi hynny ym mlwch I.23.



Sut ydw i'n llenwi 'Canolfan Rheoli Ffin' (Blwch I.16 fel arfer)?

Ar gyfer mewnfurion o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd/EFTA rhowch enw'r Safle Rheoli ar y Ffin neu'r cod adnabod Safle Rheoli ar y Ffin a aseiniwyd gan IPAFFS, [system mewnfurio cynhyrchion, anifeiliaid, bwyd a phorthiant \(IPAFFS\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) neu'r ddau.

Ar gyfer mewnfurio cynhyrchion anifeiliaid o wledydd yr Undeb Ewropeaidd/EFTA rhwng 31 Ionawr 2024 a 30 Ebrill 2024, gellir ardystio'r maes hwn fel un Amherthnasol neu ei ddileu gan y milfeddyg swyddogol sy'n ardystio.



Sut ydw i'n llenwi 'Nifer' (blwch I.20 fel arfer)?

Ar gyfer:

- anifeiliaid, rhowch gyfanswm nifer y pennau a fynegir fel unedau
- cynhyrchion cenhedlol, rhowch gyfanswm nifer y gwellt a fynegir fel unedau
- cynhyrchion ac anifeiliaid dyfrol, ac eithrio pysgod addurnol, cyfanswm y pwysau gros a net mewn cilogramau

Cyfanswm y pwysau net: diffinnir hyn fel màs y nwyddau eu hunain heb gynwysyddion uniongyrchol nac unrhyw ddeunydd pacio.

Cyfanswm pwysau gros: pwysau cyffredinol mewn cilogramau. Diffinnir hyn fel màs cyfanredol y cynhyrchion a'r cynwysyddion uniongyrchol a'u holl becynnau ond heb gynnwys cynwysyddion cludo nac offer cludo eraill.

Mae **Rhan II** yn rhestru'r gofynion iechyd y mae'n rhaid i'r llwyth gydymffurfio â nhw ac y gall fod angen ymweliadau arolygu ar eu cyfer. Gwiriwch hefyd 'Nodiadau Cwblhau'r dystysgrif, gan fod y gofynion yn aml yn cael eu hegluro neu eu nodi yn y nodiadau. Fe all eich Swyddog Ardystio ofyn am ragor o wybodaeth.





SYMUD PARSELI

Mae symud parseli o un busnes y tu allan i Brydain i un arall ym Mhrydain yn ddarostyngedig i'r un gofynion seiliedig ar risg (hysbysiad mewnfario drwy IPAFFS, ardystio a gwirio iechyd, yn dibynnu ar risg) ag unrhyw fewnfario arall o nwyddau SPS. Bydd symudiadau parseli o'r math hwn hefyd yn dilyn yr un amserlen weithredu ar gyfer rheolaethau SPS.



I gael rhagor o wybodaeth am sut i gwblhau Tystysgrif Iechyd dylai'r allforiwr gysylltu â'i Awdurdod Cymwys neu Filfeddyg Swyddogol yn ei wlad.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Cymwys sy'n allforio yn y wlad ddothbarthu yw cyflwyno Tystysgrif Iechyd Allforio. Dylai eich partner masnachu allforio gysylltu â'u Hawdurdod Cymwys Lleol i gadarnhau sut bydd ardystiad iechyd ar gyfer y nwyddau'n cael ei roi a dilyn canllawiau lleol perthnasol.

 **TROEDNODIADAU**

- [1] [Erthygl 3 OCR](#) - mae 'tystysgrif swyddogol' yn golygu papur neu ddogfen electronig sydd wedi ei llofnodi gan y swyddog ardystio ac sy'n rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ag un neu ragor o ofynion
- [2] Yn ôl diffiniadau Rheoliad 2017/625 (erthygl 3) (37) mae 'llwyth' yn golygu nifer o anifeiliaid neu swm o nwyddau sy'n dod o dan yr un dystysgrif swyddogol, ardystiad swyddogol neu unrhyw ddogfen arall, a gludir drwy'r un dull cludo ac sy'n dod o'r un diriogaeth neu drydedd wlad, ac, oni bai am nwyddau sy'n ddarostyngedig i'r rheolau y cyfeirir atynt ym mhwynt (g) o Erthygl 1(2), sydd o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad.
- [3] Swyddog Ardystio neu Filfeddyg Swyddogol
- [4] Fel arfer yn un o adrannau'r llywodraeth neu yn un o sefydliadau swyddogol y llywodraeth. Mae gan bob Gwlad ei threfniadau ei hun.
- [5] TRACES (system cofnodion masnachu electronig yn yr Undeb Ewropeaidd)
- [6] Yr Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd (EFTA)
- [7] TRACES (system cofnodion masnachu electronig yn yr Undeb Ewropeaidd)





Gwybodaeth am drwydded agored

OGL Dylai Mewnforwyr nodi bod yr wybodaeth a roddir yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid ac amodau mewnforio iechyd y cyhoedd yn unig. Nid yw'n rhoi arweiniad ar amodau eraill y gallai fod angen eu bodloni.

Mae'r testunau a ddarperir yn yr adran hon wedi eu bwriadu ar gyfer gwybodaeth yn unig - nid oes unrhyw werth cyfreithiol i'r testunau hyn. At ddibenion cyfreithiol, cyfeiriwch at y testunau a gyhoeddwyd yn legislation.gov.uk.